OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 161 (Cy. 34)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 44 (Lôn Las) i Gyffordd 45 (Ynysforgan), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Chwefror 2024* |
| *Yn dod i rym* | *26 Chwefror 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer traffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r drafford oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 44 (Lôn Las) i Gyffordd 45 (Ynysforgan), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Chwefror 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 26

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Chwefror 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y drafford" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Chwefror 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o'r llain galed sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n dechrau o bwynt 0.5 cilometr i'r dwyrain o Gyffordd 44 ar y gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at ddiwedd y ffordd ymadael tua'r gorllewin.

Y darn o'r llain galed sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n dechrau o bwynt 0.5 cilometr i'r gorllewin o Gyffordd 45 ar y gerbytffordd tua'r dwyrain hyd at ddiwedd y ffordd ymadael tua'r dwyrain.